



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

13 GORFFENNAF 2022

Adroddiad gan: Arwyn Thomas , Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Testun: Cynllun Busnes Rhanbarthol 2021-2022 GwE – Adroddiad monitro chwarter 4

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Adroddiad monitro chwarter 4 - Cynllun Busnes Rhanbarthol 2021-2022 GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

2.0 Cefndir

2.1 Mae'r Cynllun Busnes yn amlinellu ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a'n hymddygiad, y meysydd gwelliant â blaenoriaeth ar draws y rhanbarth.

2.2 Mae ein blaenoriaethau strategol yn arddel y blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol. Adnabuwyd y prif feysydd i'w datblygu drwy broses hunan werthuso'r gwasanaeth.

2.3 Adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes Rhanbarthol i'r Cyd-bwyllgor. Ynghlwm mae'r adroddiad monitro ar gyfer chwarter 4.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli sydd â chyfrifoldeb am gyflawni'r Cynllun Rhanbarthol fel swyddogion atebol. Y Cyd-bwyllgor sydd yn atebol yn y pen draw am gyflwyno'r cynllun.

3.2 Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE yn sicrhau eglurder a chytgord strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Drwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu.

3.3 Cefnogir y blaenoriaethau yma gan gynlluniau manwl y gwasanaeth sy'n nodi'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth. Amlinellir sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf wrth gyflawni'r daith ddiwygio.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 4.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw agweddau y dymunant eu trafod ymhellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Ymgynghori â'r Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-Bwyllgor.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 - Adroddiad monitro chwarter 4

Atodiad 2 – Data Rhanbarthol Chwarter 4

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Rwyf yn fodlon fod y diweddariad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.